**CANOLFAN CHWARAEON PRIFYSGOL ABERYSTWYTH**

**AMODAU DEFNYDDIO'R CAE 3G**

**DRWY I'R LLOGWR, NEU EI ASIANTAU/EI HASIANTAU, GYFLWYNO'R FFURFLEN ARCHEBU HON AC I'R BRIFYSGOL DDERBYN YR ARCHEB, GWNEIR CONTRACT FFURFIOL RHWNG Y LLOGWR A'R BRIFYSGOL, A BYDD YR AMODAU A NODIR ISOD YN RHAN ANNATOD O'R CYTUNDEB HWNNW, YNGHYD AG UNRHYW YCHWANEGIADAU NEU NEWIDIADAU I'R AMODAU HYN A WNEIR YN Y DYFODOL GAN Y BRIFYSGOL, A CHÂNT EU DANGOS YN NERBYNFA'R GANOLFAN CHWARAEON.**

Cyfrifoldeb y sawl a enwir ar y ffurflen archebu yw sicrhau bod y grŵp yn cydymffurfio â'r amodau isod:-

1. Cyfrifoldeb y sawl a enwir ar y ffurflen archebu, sydd wedi llofnodi isod, yw sicrhau bod darpariaeth Cymorth Cyntaf ddigonol ar gael gydol cyfnod yr archeb a'i bod yn cydymffurfio ag Asesiad Risg y digwyddiad.

2. Os ceir damwain sy'n gofyn am sylw meddygol pellach, rhaid rhoi gwybod i staff y Ganolfan Chwaraeon, a fydd yn cynorthwyo â'r Cynllun Gweithredu mewn Argyfwng.

3. Rhaid gwneud archebion cymunedol, a'u cadarnhau'n ysgrifenedig, ar y ffurflen archebu briodol a rhaid talu'r pris a nodir.

4. Rhaid cadw at yr amseroedd a archebwyd.

5. Rhaid i bob chwarae ddod i ben yn brydlon, a dylai pawb sy'n cymryd rhan adael adeiladau'r Ganolfan Chwaraeon erbyn 9.50pm yn ystod yr wythnos a 4.50pm ar benwythnosau heblaw bod amser hwyrach wedi'i drefnu.

6. Rhaid i grwpiau plant fod wedi'u goruchwylio **bob amser** a rhaid i'r gymhareb oruchwylio plant/oedolion fod yn addas i ofynion y gweithgaredd dan sylw, a rhaid i'r Llogwr drefnu i o leiaf un oedolyn fod ar gael. Mae hyn yn cynnwys adegau cyrraedd a gadael a gall hynny felly fod y tu allan i'r amseroedd a archebwyd. Oni ofynnwyd am hynny'n benodol wrth archebu, nid yw'r trefniant llogi'n cynnwys cyfarpar heblaw pyst y gôl – os archebir cyfarpar o'r fath, mae'n bosib y codir tâl ychwanegol ar y Llogwr ac ef/hi fydd yn gyfrifol am y cyfarpar.

7. Yn y Dderbynfa y rheolir lefelau'r llifoleuadau a gellir newid y lefelau yno.

8. Rhaid mynd i mewn i'r safle drwy'r glwyd a'r llwybrau dynodedig. Bydd staff y Ganolfan Chwaraeon yn agor y clwydi ar ôl i'r sawl a wnaeth yr archeb gofrestru yn y dderbynfa.

9. Er mwyn helpu i ddiogelu wyneb y cae, carai'r rheolwyr dynnu eich sylw at y rheolau hyn – **Esgidiau ymarfer glân gyda chnepynnau (*dimples)* heb fod yn fwy na 5mm a stydiau wedi'u mowldio yn unig a ganiateir. Ni chaniateir llafnau nac esgidiau â llafnau caled ar y cae.**

10. Rhaid i bob chwaraewr wisgo esgidiau o ryw fath. Ni chewch ymarfer yn droednoeth.

11. Ni chaniateir bwyd na diod, gwm cnoi, ysmygu na chŵn ar y cae nac yn y cyffiniau.

12. Ni chaiff y chwaraewyr chwarae wrth ochr y cae nac ar y glaswellt o'i gwmpas.

13. Talu – rhaid talu am bob sesiwn naill ai wrth archebu neu ar ôl derbyn anfoneb gan y Brifysgol. **Os archebir llai na 10 sesiwn olynol codir TAW ar gyfradd y DU ar eich clwb /archeb.**

14. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i gau unrhyw rai o'i chyfleusterau neu wahardd eu defnyddio os yw o'r farn ar unrhyw adeg fod y cyfleusterau, neu y bydd y cyfleusterau, yn anaddas i'w defnyddio. Os digwydd hynny, ni chodir tâl ac ad-delir i'r Llogwr unrhyw ffioedd a dalwyd. Ni fydd y Brifysgol yn gyfrifol am unrhyw golled ariannol neu fel arall yn sgil tynnu'r cyfleusterau'n ôl.

15. **Os bydd y Llogwr yn canslo sesiwn a archebwyd heb roi o leiaf 7 diwrnod o rybudd, bydd yn rhaid i'r Llogwr dalu'r tâl llogi, oni chaiff y cyfleuster ei ail-logi er boddhad y Brifysgol.**

16. **<u>Yswiriant</u>**

Ni fydd dim atebolrwydd ar y Brifysgol am unrhyw anaf personol, colled neu ddifrod i ddefnyddwyr y Cae Chwarae Artiffisal neu'r Ganolfan Chwaraeon. Nid yw'r Brifysgol chwaith yn derbyn dim cyfrifoldeb am hawliadau, camau gweithredu, gorchmynion, achosion na chostau sy'n deillio o unrhyw hawliadau yn erbyn y Llogwr gan drydydd parti, a bydd y Llogwr yn indemnio'r Brifysgol yn erbyn pob hawliad o'r fath y gellid ei ddwyn yn erbyn y Brifysgol yn sgil llogi'r cyfleusterau a'r cyfarpar, neu'n gysylltiedig â'u llogi.

17. **<u>Difrod</u>**

Mae'r Llogwr yn cytuno i dalu i'r Brifysgol, ar gais, gost atgyweirio neu unioni unrhyw ddifrod i'r cae, i'r adeiladau neu i'r dodrefn, y cyfarpar a'r eiddo ynddynt a allai gael eu difrodi neu eu dinistrio o ganlyniad i'r archeb.

18. **<u>Mynediad</u>**

Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl, yn ôl ei disgresiwn llwyr, i wrthod mynediad i unrhyw un i'r cae chwarae ac i'r Ganolfan Chwaraeon, neu i orfodi unrhyw un i adael y mannau hynny.

19. **<u>Goruchwyliaeth</u>**

Y Llogwr fydd yn gyfrifol am:-

i) sicrhau bod y gweithgaredd a wneir yn digwydd dan oruchwyliaeth unigolyn cyfrifol;
ii) gweinyddu, trefnu a chynnal y digwyddiad;
iii) sicrhau mai dim ond dyfarnwyr a hyfforddwyr cymwys a ddefnyddir a bod ganddynt yswiriant yn erbyn unrhyw hawliadau posib am ddifrod yn eu herbyn;
iv) goruchwylio a chadw rheolaeth ar y gwylwyr, y cystadleuwyr a'r swyddogion;
v) sicrhau bod y gwylwyr, y cystadleuwyr a'r swyddogion yn cael gwybod am reoliadau'r Brifysgol ynglŷn â pharcio ar y campws a sicrhau y cedwir at y rheoliadau hynny; gofynnir i chi ddefnyddio meysydd parcio'r Gawell neu'r Gwyddorau Biolegol ar ôl 5.30pm (peidiwch â pharcio gerllaw'r cyfleuster)
vi) gadael y safle, gan gynnwys y cyfleusterau, yr ystafelloedd newid a'r tai bach mor lân a thaclus â phosib – mae'n bosib y codir tâl ychwanegol ar grwpiau nad ydynt yn cydymffurfio;
vii) sicrhau bod digon o stiwardiaid a swyddogion i fodloni'r amodau hyn.

20. Bydd y Llogwr yn ufuddhau bob amser i gyfarwyddiadau priodol staff y Ganolfan Chwaraeon yn y cyfnod dan sylw er mwyn diogelu'r defnyddwyr, neu eiddo'r Brifysgol yn y Ganolfan Chwaraeon a'r cyffiniau.

21. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i wrthod adnewyddu cais gan grŵp sydd wedi tanddefnyddio'r cyfleuster neu wedi camddefnyddio'r cyfleusterau yn y gorffennol.

22. Bydd unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd ynglŷn â'r digwyddiad yn cydnabod bod cyfleusterau'r Brifysgol yn cael eu defnyddio.

23. Mae'n bosib y bydd TAW yn daladwy lle bo hynny'n berthnasol.

**Rwyf wedi darllen ac wedi deall yr uchod. Os na fydd fy nghlwb yn cadw at y meini prawf a amlinellir, derbyniwn gyfrifoldeb llawn am unrhyw esgeulustod ac ildiwn ein hawl i ddefnyddio'r cyfleuster.**

**Llofnodwyd ar ran……………………………………………………………………………….**

Enw: ……………………………………… Dyddiad: …………………. Llofnod: ..........................................